

EN010069: Cais gan Abergelli Power Ltd am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer Gorsaf Gynhyrchu Pŵer Nwy Abergelli Power (y cais)

Agenda'r gwrandawriad: Gwrandawriad llawr agored ar y cais

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd)

Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010¹

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan yr agenda at gyfer y gwrandawriad llawr agored.

Lleoliad: Gwesty'r Village, Heol Langdon, Abertawe, SA1 8QY

Dyddiad: Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2018

Amser: 19:00 (drysau'n agor 18:30)

Cymryd rhan yn y gwrandawriad

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i fynychu'r gwrandawriad.

Mae gan bob parti â buddiant yr hawl i wneud sylwadau llafar yn y gwrandawriad² (yn amodol ar bŵer yr Awdurdod Archwilio i reoli'r gwrandawriad). Dylai sylwadau llafar fod yn seiliedig ar y sylwadau perthnasol neu ysgrifenedig a wnaed gan y person sy'n gwneud y sylwadau llafar (neu y'u gwneir ar ei ran)³.

Gofynnir i unrhyw barti â buddiant sy'n dymuno gwneud sylwadau llafar ar eitem ar yr agenda ddod â **chwe chopi ysgrifenedig o'u sylwadau arfaethedig** er budd yr Awdurdod Archwilio ac eraill sy'n cymryd rhan yn y gwrandawriad⁴.

Gofynnir i gyfranogwyr gyfyngu eu sylwadau llafar i bum munud, ac wedyn mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn holi cwestiynau ynghylch eu sylwadau neu'n gofyn i'r Ymgeisydd neu barti arall wneud sylwadau neu ymateb.

Dylai pob parti nodi y rhoddir yr agenda isod er mwyn cynorthwyo a darparu fframwaith ar gyfer y gwrandawriad hwn a rhoi pwyntiau trafod ac nid yw'n cyfyngu'r Awdurdod Archwilio i bynciau penodol. Yn ystod y trafodaethau, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn dymuno codi materion eraill sy'n deillio o gyflwyniadau a dilyn llinellau ymchwilio nad ydynt ar yr agendâu.

Cymerir egwyliau yn ystod y gwrandawriad yn ôl cyfarwyddyd yr Awdurdod Archwilio.

¹ Canllawiau ar gyfer archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2015

² a93 Deddf Cynllunio 2008

³ a93 Deddf Cynllunio 2008

⁴ Rheol 17 y Rheolau Gweithdrefn Archwilio

Agenda

1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

2. SYLWADAU LLAFAR GAN BARTÏON Â BUDDIANT

Bydd pob Parti â Buddiant sydd wedi nodi dymuniad i siarad yn cael eu gwahodd ymlaen yn eu tro i siarad wrth fwrdd a osodir o flaen yr Awdurdod Archwilio, a chaniateir uchafswm o 5 munud ar gyfer eu cyflwyniad llafar: caniateir uchafswm o 15 munud i grŵp neu sefydliad. Mae'n bosibl y bydd y cyfyngiadau amser hyn yn amodol ar rywfaint o ddisgresiwn os yw'r Awdurdod Archwilio o'r farn, yn amgylchiadau'r sesiwn wrandawriad benodol, y byddai o fudd i archwiliad y cais i ganiatáu i barti â buddiant siarad eto, neu ymateb i faterion ychwanegol neu barhau i roi tystiolaeth y tu hwnt i'r uchafswm amser a nodir. Ni ddylai unrhyw barti ddibynnu ar y disgresiwn hwn.

Yn dilyn pob cyflwyniad, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn dymuno holi cwestiynau i'r siaradwr. Mae'n debygol y bydd yr Ymgeisydd yn ymateb yn gryno i unrhyw faterion a godir gan bob un o'r Partïon â Buddiant neu wrth grynhoi ar ddiwedd pob sesiwn.

Dylai cyflwyniadau llafar fod yn seiliedig ar sylwadau a wnaed yn flaenorol yn ysgrifenedig gan y cyfranogwr penodol. Fodd bynnag, ni ddylai sylwadau a wneir yn y gwrandawriad ailadrodd materion a drafodwyd yn flaenorol mewn cyflwyniad ysgrifenedig, ond yn hytrach, dylent roi rhagor o fanylion, esboniad a chadarnhad tystiolaethol i helpu i lywio'r Awdurdod Archwilio.

3. CYFLE I'R YMGEISYDD YMATEB YN GRYNO I UNRHYW GYFLWYNIADAU A WNAED

4. SYLWADAU I GLOI.

EN010069: Application by Abergelli Power Ltd for an Order Granting Development Consent for Abergelli Power Gas Fired Generating Station (the application)

Hearing agenda: Open floor hearing on the application

Planning Act 2008 (as amended)

Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010¹

This document sets out the agenda for the open floor hearing.

Venue: The Village Hotel, Langdon Road, Swansea, SA1 8QY

Date: Wednesday 12 December 2018

Time: 19:00 (doors open from 18:30)

Participation in hearings

All Interested Parties are invited to attend the hearing.

Each interested party is entitled to make oral representations at the hearings² (subject to the Examining Authority's (ExA's) power to control the hearings). Oral representations should be based on the relevant or written representations made by the person by whom (or on whose behalf) the oral representations are made³.

Any interested party who wishes to make an oral representation on an agenda item is requested to bring **six written copies of their intended representation** for the benefit of the ExA and others taking part in the hearing⁴.

Participants are requested to keep their oral submissions to five minutes, after which the ExA may ask questions about their representation or ask the Applicant or other party to comment or respond.

All Parties should note that the agenda given below is to assist and provide a framework for this hearing and give discussion points and does not constrain the ExA to particular topics. The ExA may wish to raise other matters arising from submissions and pursue lines of enquiry in the course of the discussions which are not on the agendas.

Breaks will be taken during the hearing as directed by the ExA.

¹ Guidance for the examination of applications for development consent for Nationally Significant Infrastructure Projects, DCLG, March 2015

² s93 Planning Act (PA 2008)

³ s93 Planning Act (PA 2008)

⁴ Rule 17 EPR

Agenda

1. WELCOME AND INTRODUCTIONS

2. ORAL REPRESENTATIONS FROM INTERESTED PARTIES

Each Interested Party who has indicated a wish to speak will be invited forward in turn to speak at a table set up in front of the ExA, and will be allowed a maximum of 5 minutes for their oral submission: a group or organisation will be allowed a maximum of 15 minutes. These time limits may be subject to some discretion if the ExA believe that in the circumstances of the particular hearing session there would be benefit to the examination of the application to allow an interested party to speak again, respond to additional matters or continue to provide evidence beyond the maximum time period identified. This discretion should not be relied on by any party.

Following each submission the ExA may wish to ask the speaker questions. The Applicant is likely to briefly respond to any matters raised by each of the Interested Parties or in summary at the close of each session.

Oral submissions should be based on representations previously made in writing by the particular participant. However, representations made at the hearing should not simply repeat matters previously covered in a written submission, but rather provide further detail, explanation and evidential corroboration to help inform the ExA.

3. OPPORTUNITY FOR THE APPLICANT TO RESPOND IN BRIEF TO ANY SUBMISSIONS MADE

4. CLOSING REMARKS.